| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I** | **AELODAU PORTFFOLIO CYLLID A PRIFFYRDD** |
| **DYDDIAD** | **26 HYDREF 2010** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **TALIADAU PARCIO CEIR** |
| **PWRPAS** | **GOFYN AM GEFNOGAETH Y PWYLLGOR I SICRHAU CYSONDEB YN Y TALIADAU PARCIO TRWY GYFLWYNO MEYSYDD PARCIO TALU AC ARDDANGOS NEWYDD AC YSTYRIED MABWYSIADAU POLISI GWAITH CYNNAL DROS Y GAEAF AR GYFER MEYSYDD PARCIO** |
| **ADRODDIAD GAN** | **PENNAETH GWASANAETH (PRIFFYRDD A RHEOLI GWASTRAFF)** |
| **GWEITHREDU** | **CYMERADWYO’R ARGYMHELLIAD** |

## 1.0 RHAGARWEINIAD

1.1 Mae’r Gwasanaeth Priffyrdd a Rheoli Gwastraff yn cynnal 69 o feysydd parcio. Rhannwyd nhw yn 27 o feysydd parcio talu ac arddangos a 42 o feysydd parcio am ddim, yn dibynnu ar eu lleoliad. Mae’r safleoedd parcio talu ac arddangos yn amrywio o barcio am gyfnod byr, parcio trwy’r dydd i feysydd parcio tymhorol.

1.2 Mae’r Adain Traffig a Pharcio yn y Gwasanaeth Priffyrdd a Rheoli Gwastraff yn gyfrifol am waith cynnal dros y gaeaf ar feysydd parcio ond nid oes ganddo bolisi a fabwysiadwyd yn ffurfiol.

## 2.0 CEFNDIR

2.1 Mae’r rhan fwyaf o ffioedd meysydd parcio canol trefi/pentrefi wedi’u rhewi ers 3 blynedd. Ystyriwyd na fyddai wedi bod yn dderbyniol codi’r ffioedd oherwydd y dirwasgiad ac, unwaith eto, cynigir gostwng y cynnydd mewn ffioedd i’r eithaf ar gyfer y flwyddyn sydd ar ddod, yn amodol ar y sefyllfa ariannol. Er mwyn cynyddu incwm parcio, cynnal cyfleusterau a sicrhau cysondeb, cynigir y dylid cyflwyno rhagor o feysydd talu ac arddangos.

2.2 Mae cost cynnal a gorfodi’r meysydd parcio talu ac arddangos a’r meysydd parcio am ddim yn codi bob blwyddyn. Fodd bynnag, gwelwyd gostyngiad o 30% dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn y cyllidebau ar gyfer gwaith cynnal a gwelliannau cyfalaf.

2.3 Mae anghysondebau hanesyddol ledled Ynys Môn, gyda meysydd talu ac arddangos mewn rhai trefi a phentrefi a meysydd parcio am ddim mewn rhai eraill. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod y cymunedau o natur debyg a bod potensial i gael incwm sylweddol o rai o’r meysydd parcio.

2.4 Yng ngaeaf 2010, gwelwyd eira a rhew ar raddfa na welwyd o’r blaen yn Ynys Môn, fel oedd yn wir am y rhan fwyaf o’r wlad. Er bod y rhan fwyaf o’r prif lonydd

wedi eu clirio'n weddol gyflym, ni chafodd meysydd parcio'r Cyngor eu trin fel blaenoriaeth, yn arbennig pan oedd lefelau halen yn isel.

2.5 Fel perchenogion/deiliaid y tiroedd a ddynodwyd fel meysydd parcio, mae gan y Cyngor ddyletswydd gofal i sicrhau bod y tir yn rhesymol ddiogel ar gyfer defnydd cyfreithlon. Wrth gymryd camau i wella diogelwch, mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud i safon resymol. Bydd polisi yn sefydlu'r hyn fydd yn cael ei wneud dan amgylchiadau penodol.

2.6 Mae risg y gall y Cyngor wynebu hawliadau o ganlyniad i beidio â gweithredu ac oherwydd nad oes ganddo bolisi cydnabyddedig i flaenoriaethu adnoddau.

## 3.0 SAFLEOEDD ARFAETHEDIG AR GYFER MEYSYDD PARCIO TALU AC ARDDANGOS NEWYDD

3.1 Meysydd Parcio Trwy'r Dydd Newydd

- Maes Parcio'r Pentref, Cemaes
- Maes Parcio'r Llyfrgell, Benllech
- Maes Parcio'r Sgwâr, Benllech
- Maes Parcio Stanley Crescent, Caergybi

3.2 Meysydd Parcio Arhosiad Byr Newydd

- Maes Parcio Railway Stores, Llangefni

3.3 Meysydd Parcio Tymhorol Newydd

- Maes Parcio'r Llyfrgell, Rhosneigr
- Maes Parcio Porth Swtan
- Maes Parcio'r Traeth, Rhoscolyn

3.4 Cynigir cyflwyno cyfleusterau talu ac arddangos safonol yn y safleoedd hyn yn amodol ar ddatrys unrhyw drefniadau prydles cyfredol.

3.5 Bydd angen gorchymyn traffig parcio oddi-ar-y-stryd cyfansawdd ar gyfer y cynnig. Yn dilyn hynny, cyflwynir y trefniadau talu ac arddangos yn raddol dros dair blwyddyn ariannol, yn unol â'r cyllid fydd ar gael i wneud gwaith gwella angenrheidiol a gwaith ar yr isadeiledd.

3.6 Defnyddir cyllid grant allanol i uwchraddio'r meysydd parcio arfordirol tymhorol ym Mhorth Swtan a Rhoscolyn. Bydd y gwaith ar y safleoedd sydd ar ôl yn cael ei gyllido o gyllideb refeniw'r Gwasanaeth ar gyfer meysydd parcio.

3.7 Amcangyfrifir y bydd y gwaith altro yn costio £32,000.00. Bydd hefyd yn costio oddeutu £1,000 yn ychwanegol bob blwyddyn i gynnal y peiriannau talu ac arddangos newydd.

3.8 Mae'n anodd amcangyfrif yn gywir y cynnydd yn yr incwm a ddisgwylir oherwydd y posibilrwydd y bydd modurwyr yn mabwysiadu arferion parcio gwahanol i osgoi talu. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y cynnydd blynyddol yn yr incwm parcio o gwmpas £30,000.00 - £35,000.00.

3.9 Bydd y cynnig yn hwyluso camau gorfodaeth yn y safleoedd hyn a bydd yn gwahardd faniau gwersylla rhag parcio am ddim dros nos a bydd yn caniatáu i swyddogion gorfodaeth roi dirwyon i unrhyw gerbydau a adewir yno am gyfnodau hir. Rhagwelir y bydd unrhyw gynnydd mewn costau gorfodaeth yn cael ei dalu amdano yn sgil cynnydd yn yr incwm o ddirwyon cosb sefydlog.

## 4.0 POLISI ARFAETHEDIG NEWYDD AR GYFER GWAITH CYNNAL DROS Y GAEAF

4.1 Mae trin a chael gwared ar eira a rhew o feysydd parcio yn broblemus. Ni ellir gwneud gwaith graeanu traddodiadol oherwydd ychydig o le sydd yno i gerbydau graeanu mawr symud o gwmpas y safleoedd oherwydd dyluniad y meysydd parcio a nifer y ceir sydd wedi eu parcio yno. Gwneir gwaith clirio gyda llaw ac mae hynny'n llafur-ddwys ac yn ddrud.

4.2 Mae biniau halen yn y prif feysydd talu ac arddangos trefol lle bu hanes o rew ac eira yn casglu. Mae'r Cyngor yn archwilio ac yn llenwi'r biniau halen ond y cyhoedd sy'n gyfrifol am daenu'r halen eu hunain.

4.3 Cynigir na fydd y Cyngor yn rhoi halen ar ei feysydd parcio yn ystod gwaith cynnal arferol dros y gaeaf, ond bod Cynllun Gwasanaeth Gaeaf Ynys Môn ar gyfer troedffyrdd yn cael ei fabwysiadu. Felly, bydd meysydd parcio'n cael eu trin yn ystod gwaith cynnal dros y gaeaf os yw hi wedi bod yn rhewi'n galed neu'n bwrw eira'n drwm am 48 awr.

4.4 Oherwydd nad oes modd trin pob maes parcio ar yr un pryd cynigir y drefn flaenoriaethu isod:

- Blaenoriaeth 1 - Meysydd parcio yn y prif Ganolfannau Siopa trefol;
- Blaenoriaeth 2 - Meysydd parcio sy'n gwasanaethu'r prif ardaloedd trefol a meddygfeydd.
- Blaenoriaeth 3 - Meysydd parcio sy'n gwasanaethu ardaloedd siopa bychan
- Blaenoriaeth 4 - Meysydd parcio eraill fel mae adnoddau'n caniatáu.

4.5 Dylid cyfeirio'r gyllideb Refeniw Parcio tuag at gynnal meysydd a gweithgareddau talu ac arddangos. Ni fuddsoddir yn sylweddol dros £2,000 mewn unrhyw faes parcio lle gellir parcio am ddim.

## 5.0 ARGYMHELLION

Yn unol â'r pwerau a roddwyd i'r Aelodau Portffolio perthnasol:-

5.1 I gefnogi'r cynigion i gyflwyno cysondeb gydag 8 o feysydd talu ac arddangos newydd ledled yr Ynys.

5.2 I gefnogi'r cynigion ar gyfer Gwaith Cynnal dros y Gaeaf

Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd a Rheoli Gwastraff)
020.40 /